# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 31 Hydref 2016

Amser: 14.00 - 15.00

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Neil Hamilton AC<br>Mike Hedges AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Lee Waters AC |
| Wales Audit Office: | Huw Vaughan Thomas<br>Matthew Mortlock |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Buckle (Clerc)<br>Meriel Singleton (Ail Glerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Jonathan Baxter (Ymchwilydd)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Gregg Jones (Ymchwilydd)<br>Rhayna Mann |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor.

1.2 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Nodwyd y papurau.

2.2 Cytunodd y Pwyllgor:

- Llywodraethiant Bwrdd Iechyd GIG Cymru: Gwybodaeth ychwanegol gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru – i ofyn i AGIC am y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch adolygwyr lleyg gwirfoddol yn ystod haf 2017; a
- Craffu ar Gyfrifon: Gwybodaeth ychwanegol gan Gyrfa Cymru – i ofyn am eglurhad pellach am y rhesymeg ynghylch pam nad yw holl gynlluniau pensiwn blaenorol awdurdodau lleol wedi'u huno mewn un cynllun.

### 2.1 Llywodraethiant Bwrdd Iechyd GIG Cymru: Gwybodaeth ychwanegol gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (10 Hydref 2016)

### 2.2 Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai: Llythyr gan Mike Hedges AC, Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau (17 Hydref 2016)

### 2.3 Craffu ar Gyfrifon: Gwybodaeth ychwanegol gan Lywodraeth Gymru (17 Hydref 2016)

### 2.4 Craffu ar Gyfrifon: Gwybodaeth ychwanegol gan Gyrfa Cymru (19 Hydref 2016)

### 2.5 Llywodraethiant Bwrdd Iechyd GIG Cymru: Gwybodaeth ychwanegol gan Lywodraeth Gymru (21 Hydref 2016)

## 3 Gwasanaethau Rheilffyrdd: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

3.1 Gan fod Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau wedi trefnu cynnal ymchwiliad i wasanaethau rheilffyrdd, cytunodd y Pwyllgor na fyddai'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn cynnal ymchwiliad.   Cytunodd yr Aelodau y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau i ofyn am gynnwys materion a amlygwyd yn y drafodaeth yn eu hymchwiliad hwy.

## 4 Rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru: Gohebiaeth

4.1 Cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad byr i'r mater hwn gan edrych yn benodol ar y trosolwg strategol.

## 5 Cymdeithasau Tai: Papur cwmpasu ar ymchwiliad posibl

5.1 Bu'r Aelodau yn ystyried ac yn trafod y papur cwmpasu ynghylch ymchwiliad posibl i gymdeithasau tai.
5.2 Cytunodd yr Aelodau i gynnal ymchwiliad ar yr amod bod cylch gorchwyl ychwanegol yn cael ei gynnwys.

## 6 Y Goblygiadau i Gymru o ran Prydain yn gadael yr Undeb Ewropeaidd

6.1 Bu'r Aelodau yn ystyried ac yn trafod y papur cwmpasu ynghylch ymchwiliad posibl i'r goblygiadau i Gymru o ran Prydain yn gadael yr Undeb Ewropeaidd.
6.2 Gofynnodd yr Aelodau i'r Tîm Clercio i ddiwygio'r papur a'i ddychwelyd at y Pwyllgor i'w ystyried ymhellach.